# Gwaith ieuenctid yng Nghymru:
## darparu ar gyfer pobl ifanc


Crynodeb i bobl ifanc

Llywodraeth Cymru
Welsh Government











# Helo

Mae gan Lywodraeth Cymru rai **cyfarwyddiadau cyfreithiol newydd** am waith ieuenctid y mae'n rhaid i bob cyngor eu dilyn.

**Mae'r cyfarwyddiadau newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2026.** Mae'r canllaw hwn yn esbonio beth yw gwaith ieuenctid a beth mae'r cyfarwyddiadau newydd hyn yn ei olygu.

## Ein gweledigaeth

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bobl ifanc wneud yn dda a teimlo'n dda am eu bywydau. Rydym eisiau i Gymru fod yn lle lle:

- **Mae gwaith ieuenctid ar agor i bawb ac yn hawdd cymryd rhan ynddo.**
- **Mae gweithwyr ieuenctid yn cael help a chymorth i wneud eu gwaith yn dda.**
- **Mae pobl yn deall pam mae gwaith ieuenctid yn bwysig.**
- **Gall gwaith ieuenctid helpu pobl ifanc nawr ac yn y dyfodol.**



# Beth yw gwaith ieuenctid?

Efallai bod rhai ohonoch eisoes yn mynd i glwb ieuenctid lleol. Efallai eich bod hefyd wedi cwrdd â gweithiwr ieuenctid yn eich ysgol ac yn deall beth maen nhw'n ei wneud. Mae'r cyfarwyddiadau newydd gan Lywodraeth Cymru yn esbonio bod gwaith ieuenctid:

- ar gyfer pobl ifanc 11 i 25 oed
- yn cefnogi twf cymdeithasol, emosiynol ac addysgol pobl ifanc
- yn wirfoddol – mae pobl ifanc yn dewis cymryd rhan neu beidio
- yn helpu pobl ifanc i ddysgu sgiliau bywyd a chael hyfforddiant
- yn helpu pobl i wneud ffrindiau ac adeiladu hyder
- yn helpu pobl ifanc i gael dweud eu dweud mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
- yn cael ei arwain gan weithwyr ieuenctid neu weithwyr cymorth ieuenctid hyfforddedig.

Mae gwaith ieuenctid yn digwydd mewn llawer o leoedd: clybiau ieuenctid, ysgolion, mannau cymunedol, yn yr awyr agored ac ar-lein.

**Dyma Lois**

Mae Lois yn weithiwr ieuenctid.

Ei rôl yw helpu pobl ifanc i deimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu, ac yn cael eu cynnwys.

Mae hi'n gwrando.

Mae hi'n cynllunio gweithgareddau gyda phobl ifanc, nid dim ond ar eu cyfer nhw.

Yn bennaf oll — mae Lois yn helpu i wneud pethau'n hwyl, yn ddiogel, ac yn groesawgar.



# Sut mae gwaith ieuenctid yn gweithio yng Nghymru

Mae llawer o sefydliadau yn cynnig gwaith ieuenctid – cynghorau, elusennau, ysbytai a chymdeithasau tai. Edrychwch ar wefan Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid i weld rhywfaint o'r gwaith ieuenctid sydd ar gael yng Nghymru.

**Efallai na fydd gwaith ieuenctid mewn un rhan o Gymru yr un fath ag mewn rhan arall.**

Ond mae'r syniad craidd yr un peth. Mae gwaith ieuenctid yn cynnig lle diogel.

- Lle i gwrdd â phobl.
- Lle i roi cynnig ar bethau.
- Lle i gael cymorth gan oedolion y gallwch ymddiried ynddyn nhw.

## Felly, beth mae'r cyfarwyddiadau newydd yn ei ddweud?



# Newydd... Safonau Cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid

### Mae safonau gwaith ieuenctid y mae'n rhaid i gynghorau eu dilyn.

Mae hyn yn golygu ble bynnag rydych chi'n byw yng Nghymru, gallwch ddisgwyl yr un ansawdd o waith ieuenctid.

Mae'r safonau cenedlaethol yn dweud rhaid i waith ieuenctid:

- gael ei lunio gan bobl ifanc a'u safbwyntiau
- fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
- ddigwydd mewn lleoedd gwahanol — yn agos at ble rydych chi'n byw ac ar-lein
- fod yn agored ac yn hawdd i'w ddefnyddio
- cynnig gweithgareddau gwahanol a chyfleoedd i ddysgu
- cefnogi eich lles corfforol, emosiynol, a meddyliol
- fod yn gydgysylltiedig — dylai cyfleoedd fod yn hawdd i'w defnyddio fel y gall pobl ifanc gymryd rhan a gwybod beth sydd ar gael yn eu hardal.

Byddwn yn defnyddio'r safonau hyn i wirio bod gwaith ieuenctid yn gweithio'n dda ledled Cymru.

# Newydd... Cynlluniau gwaith ieuenctid

Mae'n rhaid i bob cyngor greu cynllun 5 mlynedd ar gyfer gwaith ieuenctid. Bydd y cynlluniau cyntaf yn rhedeg o fis Ebrill 2027 tan fis Mawrth 2032.

Rhaid i'r cynllun gynnwys:

- beth sydd ar gael o ran gwaith ieuenctid yn yr ardal leol
- beth sydd ei angen ar bobl ifanc
- sut y bydd cynghorau a'u partneriaid yn delio ag unrhyw fylchau mewn cymorth
- sut y gall gwaith ieuenctid fod angen tyfu neu newid dros amser.

Rhaid i'r cynllun fod yn seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth go iawn – nid dyfalu.

Rhaid i gynghorau weithio gyda phobl ifanc, sefydliadau ac elusennau wrth lunio'r cynllun.

Byddwn yn gwirio pob cynllun. Unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo, bydd yn cael ei roi ar wefan y cyngor.

## Gwneud newidiadau i'r cynllun

Mae cynlluniau'n para 5 mlynedd. Gellir eu diweddaru os bydd pethau'n newid neu os bydd rhywbeth annisgwyl yn digwydd. Ond rhaid i gynghorau roi gwybod i ni fel y gallwn gymeradwyo unrhyw fersiwn newydd.

## Gwrando ar bobl ifanc

**Mae eich llais yn bwysig.** Mae gennych yr hawl i gael eich clywed. Mae hyn yn y Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Erthygl 12 yn dweud bod gennych yr hawl i rannu eich safbwyntiau, cael eich gwrando, a chael dweud eich dweud mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch.

Dylai cynghorau greu ffyrdd diogel a theg i chi gymryd rhan wrth lunio beth sy'n mynd yn y cynllun gwaith ieuenctid.

Dylent gael ffyrdd clir i chi gymryd rhan:

- clybiau ieuenctid
- fforymau neu grwpiau ieuenctid
- arolygon (ar-lein neu yn yr ysgol)
- gweithdai (wyneb yn wyneb neu ar-lein).



# Newydd… Person arweiniol ar gyfer gwaith ieuenctid

**Mae'n rhaid i bob cyngor gael un person arweiniol** i weithio gyda sefydliadau eraill, elusennau, grwpiau cymunedol, a chynghorau cyfagos.

Dylai'r person arweiniol:

- sefydlu partneriaeth leol ar gyfer gwaith ieuenctid
- nodi bylchau mewn cymorth a gweithgareddau
- sylwi ar bryderon ac anghenion newydd yn gynnar
- helpu'r bartneriaeth i sefydlu ffyrdd clir i bobl ifanc rannu eu safbwyntiau a chael eu clywed.

Mae gweithio gyda'n gilydd yn ei gwneud hi'n gliriach beth sydd ar gael yn yr ardal. Mae'n helpu pobl ifanc i ddod o hyd i gymorth a gweithgareddau.

# Newydd… Gwirio ac adrodd

Rhaid i gynghorau wirio pa mor dda mae eu cynllun yn gweithio. Rhaid iddyn nhw ofyn i bobl ifanc am eu safbwyntiau o leiaf unwaith y flwyddyn.

Rhaid i gynghorau gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar:

- pa mor dda mae eu cynllun yn gweithio
- beth sydd wedi gwella
- beth sydd dal angen gwaith.

Dylai'r adroddiad fod yn hawdd ei ddod o hyd iddo ac yn hawdd i bobl ifanc ei ddeall.

# Beth nesaf?

## Dewch i gymryd rhan!

Os ydych eisoes yn mynd i glwb ieuenctid neu weithgaredd, siaradwch â'ch gweithiwr ieuenctid am sut y gallwch gymryd rhan yn y cynllun 5 mlynedd cyntaf.

Neu cysylltwch â'ch gwasanaeth gwaith ieuenctid lleol - bydd manylion cyswllt ar wefan eich cyngor.

**Rhannwch eich syniadau. Helpwch i lunio beth sy'n digwydd nesaf yn eich ardal.**

